OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 537 (Cy.47)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*8 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi (**1**) at ddibenion adran 2(2) Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

RHAN 1

RHAGARWEINIOL

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2005.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "ardal Ynysoedd yr Alban" ("*Scottish Islands area*") yw naill ai —

(a) ynysoedd Erch ac eithrio ynys Stronsay; neu

(b) ynysoedd Jura, Gigha, Arran, Bute, Great Cumbrae a Little Cumbrae, penrhyn Kintyre i'r de o Tarbert a'r darnau o dir o fewn Rhanbarth Argyll a Bute yn cynnwys y rhannau o blwyfi Dunoon a Kilmun ac Inverchaolain a ddangosir gan linell goch ar fap wedi'i farcio "Y map y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) y diffiniad o ardal Ynysoedd yr Alban yn rheoliad 2(1) Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005", dyddiedig 31 Ionawr 2005, a lofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol ac a adneuwyd yn ei swyddfeydd ym Mharc Cathays Caerdydd CF10 3NQ;

(**1**) OS 1999/2788
(**2**) 1972 p.68.

ystyr "ardoll" ("*levy*") yw'r ardoll sy'n daladwy o dan ddeddfwriaeth y Gymuned a'r Rheoliadau hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol;

mae i "awdurdod cymwys" ("*competent authority*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol;

mae i "awdurdod cymwys perthnasol" ("*relevant competent authority*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol;

ystyr "blwyddyn gwota" ("*quota year*") yw unrhyw un o'r cyfnodau o 12 mis y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(1) Rheoliad y Cyngor (sy'n ymwneud â chyflwyno'r ardoll);

mae "buddiant" ("*interes*t") yn cynnwys trwydded i feddiannu tir a buddiant morgeisedig ac ymddiriedolwr, ond nid yw'n cynnwys buddiant buddiolwr o dan ymddiriedolaeth neu setliad;

mae "buwch" ("*cow*") yn cynnwys heffer sydd wedi bwrw llo;

ystyr "cwota" ("*quota*") yw cwota gwerthiannau uniongyrchol neu gwota cyfanwerthol, yn ôl y digwydd;

ystyr "cwota addasedig" ("*converted quota*") yw cwota a addaswyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn cais a wnaed o dan reoliad 21;

ystyr "cwota cyfanwerthol" ("*wholesale quota*") yw cyfanswm y llaeth y gellir ei ddanfon i brynwr gan gynhyrchwr mewn blwyddyn gwota heb i'r cynhyrchwr hwnnw fod yn agored i dalu ardoll;

ystyr "cwota cyfanwerthol cofrestredig" ("*registered wholesale quota*") yw cwota cyfanwerthol a gofrestrwyd yn unol â rheoliad 4(3) a (4);

ystyr "cwota nas defnyddiwyd" ("*unused quota*") yw cwota sy'n weddill heb ei ddefnyddio ar ôl ystyried unrhyw werthiannau uniongyrchol neu ddanfoniadau, yn dilyn y cyfryw addasu (os o gwbl) ag sy'n ofynnol yn Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn (sy'n ymwneud â chynnwys braster llaeth), a dehonglir "cwota a ddefnyddiwyd" yn unol â hynny;

ystyr "cwota gwerthiannau uniongyrchol" ("*direct sales quota*") yw cyfanswm y cynnyrch llaeth y gellir ei werthu neu ei drosglwyddo am ddim drwy werthiannau uniongyrchol gan gynhyrchwr mewn blwyddyn gwota heb i'r cynhyrchwr fod yn agored i dalu ardoll;

ystyr "cwota prynwr" ("*purchaser quota*") yw cyfanswm y llaeth y gellir ei ddanfon i brynwr yn ystod blwyddyn gwota heb arwain at unrhyw atebolrwydd i dalu ardoll;

ystyr "cynnyrch llaeth" ("*dairy produce*") yw cynnyrch, a fynegir mewn cilogramau neu litrau (mae un cilogram yn cyfateb i 0.971 litr), y mae ardoll yn daladwy mewn perthynas ag ef;

ystyr "deddfwriaeth y Gymuned" ("*the Community Legislation*") yw Rheoliad y Cyngor, Rheoliad y Comisiwn, a Rheoliad y Comisiwn 1756/93;

ystyr "cynhyrchwr cyfanwerthol" ("*wholesale producer*") yw cynhyrchwr sy'n danfon llaeth i brynwr;

mae "deiliad" ("*occupier*"), mewn perthynas â thir yn cynnwys y person sydd â'r hawl i roi deiliadaeth y tir hwnnw i berson arall, a, thra pery'r buddiant a grybwyllir yn rheoliad 16(1), y person sydd â'r hawl i roi deiliadaeth y tir pan ddaw'r buddiant hwnnw i ben, a dehonglir "deiliadaeth" yn unol â hynny;

ystyr "deiliad cwota" ("*quota holder*"), mewn perthynas â chwota, yw'r person y mae'r cwota wedi'i gofrestru yn ei (h)enw;

ystyr "deiliad cwota cyfanwerthol" ("*wholesale quota holder*") yw person y mae cwota cyfanwerthol wedi'i gofrestru yn ei (h)enw yn unol â rheoliad 4; ac

ystyr "deiliad cwota gwerthiannau uniongyrchol" ("*direct sales quota holder*") yw person y mae cwota gwerthiannau uniongyrchol wedi'i gofrestru yn ei (h)enw yn unol â rheoliad 4;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵ yl banc o dan Ddeddf Bancio a Masnachu Ariannol 1971(**3**).

ystyr "dosraniad rhagolygol" ("*prospective apportionment*"), o ran cwota mewn perthynas â daliad, yw dosraniad cwota rhwng y personau y mae ganddynt fuddiant yn y daliad at ddibenion canfod y cwota y gellir ei briodoli i ran o'r daliad hwnnw os caiff y rhan honno ei throsglwyddo;

mae i "ddaliad" ("*holding*") yr un ystyr ag yn Erthygl 5(d) Rheoliad y Cyngor;

mae i "ddanfon" ("*delivery*") yr un ystyr ag yn Erthygl 5(f) Rheoliad y Cyngor, a dehonglir "danfon" yn unol â hynny;

mae i "gronfa genedlaethol" ("*national reserve*") yr ystyr a roddir iddi yn rheoliad 2 y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol;

ystyr "gwerthwr uniongyrchol" ("*direct seller*") yw cynhyrchwr sy'n cynhyrchu llaeth ac sy'n trin neu sy'n prosesu'r llaeth hwnnw i gynhyrchu cynnyrch llaeth ar ei ddaliad ac sy'n gwerthu neu'n trosglwyddo'r llaeth hwnnw neu'r cynhyrchion llaeth hynny am ddim ar ôl hynny heb iddynt gael eu trin neu eu prosesu ymhellach gan fenter wahanol sy'n trin neu sy'n prosesu llaeth neu gynhyrchion llaeth;

mae i "gyfathrebu electronig" ("*electronic communication*") yr un ystyr ag yn adran 15 Deddf Cyfathrebu Electronig 2000(**4**);

mae i "gynhyrchwr" ("*producer*") yr un ystyr ag yn Erthygl 5(c) Rheoliad y Cyngor;

ystyr "hysbysiad cydsyniad neu hysbysiad unig fuddiant" ("*consent or sole interest notice*") yw hysbysiad, mewn perthnas â daliad, sy'n datgan —

(a) mai'r person sy'n cyflwyno'r hysbysiad yw unig ddeiliad y daliad hwnnw ac nad oes gan unrhyw berson arall fuddiant yn y daliad hwnnw neu ran o'r daliad hwnnw; neu

(b) bod pob person sydd â buddiant yn y daliad hwnnw neu unrhyw ran ohono, y gallai gwerth y buddiant hwnnw gael ei leihau drwy'r dosraniad neu'r dosraniad rhagolygol y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef, yn cytuno â'r dosraniad neu'r dosraniad rhagolygol hwnnw;

mae i "laeth" ("*milk*") yr un ystyr ag yn Erthygl 5(a) Rheoliad y Cyngor;

ystyr "menter laeth" ("*dairy enterprise*") yw ardal y mae deiliad yr ardal honno wedi datgan ei bod yn cael ei rhedeg fel busnes cynnnyrch llaeth hunangynhwysol;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") yw cynhyrchwr, prynwr, unrhyw un o gyflogeion neu asiantiaid cynhyrchwr neu brynwyr, unrhyw gludwr llaeth, unrhyw berson yn gwneud gwaith profi braster menyn ar gyfer prynwyr mewn labordy, prosesydd llaeth neu gynhyrchion llaeth, neu unrhyw berson arall sydd ynghlwm wrth brynu, gwerthu neu gyflenwi llaeth neu gynhyrchion llaeth a gafwyd yn uniongyrchol oddi wrth gynhyrchwr neu brynwr, ond nid yw'n cynnwys defnyddiwr llaeth neu gynhyrchion llaeth;

ystyr "prynwr" ("*purchaser*") yw prynwr o fewn ystyr Erthygl 5(e) Rheoliad y Cyngor, ac eithrio yn rheoliad 5(1) i (4) a rheoliad 31(7), a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 5 ac Erthygl 23 Rheoliad y Comisiwn;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 595/2004 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth(**5**);

(**3**) 1971 p. 80.
(**4**) 2000 p.7.
(**5**) OJ Rhif L94, 31.3.2004, tud.22.

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 1756/93" ("*Commission Regulation 1756/93*") yw Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 1756/93 sy'n pennu'r digwyddiadau gweithredol ar gyfer y gyfradd addasu amaethyddol sy'n gymwys i laeth a chynhyrchion llaeth(**6**);

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth(**7**);

ystyr "trosglwyddai" ("*transferee*") yw —

(a) lle trosglwyddir cwota gyda daliad neu ran o ddaliad, person sy'n cymryd lle rhywun arall fel deiliad y daliad hwnnw neu ran o ddaliad; ac

(b) mewn unrhyw achos arall, y person y trosglwyddir y cwota iddo/iddi;

ystyr "trosglwyddwr" ("*transferor*") yw

(a) lle trosglwyddir cwota gyda daliad neu ran o ddaliad, person y cymerir ei le gan rywun arall fel deiliad y daliad hwnnw neu ran o ddaliad; a

(b) mewn unrhyw achos arall, y person y trosglwyddir cwota oddi wrtho/wrthi;

mae i "werthiant uniongyrchol" ("*direct sale*") yr un ystyr ag yn Erthygl 5(g) Rheoliad y Cyngor;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol" ("*the general provisions regulations*") yw Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Darpariaethau Cyffredinol) 2002(**8**);

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at unrhyw beth a wneir neu a gynhyrchir yn ysgrifenedig yn cynnwys cyfeiriad at gyfathrebu electronig a gofnodwyd ac y gellir ei hatgynhyrchu ar ôl hynny.

(3) Bydd i ymadroddion eraill a ddefnyddir—

(a) yn y Rheoliadau hyn; a

(b) yn neddfwriaeth y Gymuned,

yr un ystyr ag yn neddfwriaeth y Gymuned a dehonglir ymadroddion cytras yn unol â hynny.

Cymhwyso

3. Ac eithrio fel y darperir fel arall mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bersonau perthnasol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awdurdod cymwys perthnasol iddynt.

RHAN 2

COFRESTRU CWOTA

Cofrestrau a hysbysiadau y mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cadw a'u paratoi

4.—(1) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) cadw cofrestr o werthiannau uniongyrchol; a

(b) anfon at bob gwerthwr uniongyrchol gopi o'r cofnod yn y gofrestr o werthiannau uniongyrchol yn ymwneud ag ef neu â hi.

(**6**) OJ Rhif.L161, 2.7.1993, tud.48, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 569/1999 (OJ Rhif L70, 17.3.1999, tud.12).
(**7**) OJ Rhif L270, 21.10.03, tud.123, fel y'i cywirwyd gan gywiriad OJ Rhif L94, 31.3.2004, tud. 71.
(**8**) O.S. 2002/458, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/466.

(2) mae'n rhaid i'r gofrestr o werthiannau uniongyrchol gynnwys cofnod o ran pob gwerthwr uniongyrchol yn nodi yn arbennig —

(a) ei (h)enw;

(b) ei gyfeiriad/chyfeiriad masnachu;

(c) cyfeirnod sy'n fodd i'w (h)adnabod;

(ch) y cwota gwerthiannau uniongyrchol sydd ar gael iddo neu iddi ar gyfer y flwyddyn gwota; a

(d) manylion ei (g)werthiannau uniongyrchol.

(3) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) cadw cofrestr gyfanwerthol;

(b) anfon at bob cynhyrchwr cyfanwerthol gopi o'r cofnod yn y gofrestr gyfanwerthol yn ymwneud ag ef neu â hi; ac

(c) anfon at bob prynwr a enwir yn y gofrestr y cyfeirir ati ym mharagraff (4)(d) gopi o'r rhan honno o'r cofnod yn ymwneud â'i gwota/chwota prynwr.

(4) mae'n rhaid i'r gofrestr gyfanwerthol gynnwys cofnod o ran pob cynhyrchwr cyfanwerthol yn nodi yn arbennig —

(a) ei (h)enw;

(b) ei gyfeiriad/chyfeiriad masnachu;

(c) cyfeirnod sy'n fodd i'w (h)adnabod;

(ch) y cwota cyfanwerthol sydd ar gael iddo neu iddi ar gyfer y flwyddyn gwota; ac

(d) rhestr yn nodi enw a chyfeiriad pob prynwr y caiff ei gwota/chwota ei gyfrifo i ystyried cyfanswm cwota cyfanwerthol y cynhyrchwr cyfanwerthol hwnnw neu ran ohono, a'r cwota cyfanwerthol sydd wedi'i gofrestru gyda phob prynwr, gan ddangos sylfaen cynnwys braster gynrychioliadol y cwota hwnnw wedi'i chyfrifo yn unol ag Erthygl 7 Rheoliad y Comisiwn.

(5) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) cadw cofrestr o brynwyr; a

(b) anfon at bob prynwr gopi o gofnod y prynwr sy'n ymwneud ag ef neu â hi.

(6) mae'n rhaid i'r gofrestr o brynwyr gynnwys cofnod o ran pob prynwr yn nodi yn arbennig —

(a) ei (h)enw; a

(b) ei gwota/chwota fel prynwr.

(7) At ddibenion paragraffau (1) i (4), lle mae daliad deiliad cwota yn cynnwys mwy nag un fenter laeth, caiff deiliad y cwota hwnnw, ar ôl cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysiad cydsyniad neu unig fuddiant ynghylch y daliad hwnnw, gytuno â'r Cynulliad Cenedlaethol i rannu'r cwota sydd ar gael i ddeiliad y cwota hwnnw yn ymwneud â'r daliad hwnnw rhwng cofnodion ar wahân yn y gofrestr o werthiannau uniongyrchol neu gofnodion ar wahân yn y gofrestr gyfanwerthol, yn ôl y digwydd.

(8) (a) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud y cyfryw ymholiadau ag y cred yn rhesymol eu bod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y cofrestrau y mae'n ofynnol iddo eu cadw o dan y rheoliad hwn yn gywir;

(b) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'r cofrestrau —

(i) i gofnodi unrhyw ddyraniad neu addasiad a wneir o dan neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, neu

(ii) gwneud unrhyw gywiriad neu ddiwygiad y cred yn rhesymol ei fod yn ofynnol;